Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Arberth
**Jesse Road**
**Arberth**
**Sir Benfro**
**SA67 7FE**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1:** **Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2:** **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3:** **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Arberth wedi'i lleoli yn nhref fechan Arberth yn Sir Benfro. Mae bron pob un o'r disgyblion yn byw'n lleol, gydag ychydig ohonynt yn dod o'r ardal gyfagos. Mae 286 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 12 yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol saith dosbarth un oed a phum dosbarth oed cymysg, wedi'u haddysgu gan saith athro amser llawn ac wyth athro rhan-amser. Gall rhieni ddewis naill ai addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg i'w plant.

Mae tua 9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 33% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nifer bach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 95% o ddisgyblion o dras gwyn Prydeinig. Mae tua 18% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2015 a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Mehefin 2010.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Arberth yn 2016-2017 yw £3,715 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £6,870 a'r lleiafswm yw £3,427. Mae Ysgol Gynradd Arberth yn safle 51 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Mae lefel diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron pob un o'r disgyblion yn dda
- Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda
- Mae perthynas waith effeithiol rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, sy'n trin disgyblion yn gyfartal

## Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:**

- Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn
- Mae trefniadau trylwyr i reoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu
- Mae'r corff llywodraethol yn rhoi lefel effeithiol o gefnogaeth i'r ysgol
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion
- Mae partneriaeth effeithiol â rhieni, gwasanaethau cymorth arbenigol a'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles disgyblion
- Mae digon o athrawon a staff cymorth profiadol i gwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol

## Argymhellion

A1 Codi cyrhaeddiad disgyblion mwy abl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn Cymraeg, ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith

A3 Gwella presenoldeb

A4 Sicrhau bod marcio’n cael ei ddefnyddio’n fwy effeithiol fel bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed a’u gallu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r Gymraeg yn iaith newydd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion sy’n dechrau yn y ffrwd Gymraeg; fodd bynnag, mae eu medrau llafar yn datblygu’n gyflym iawn ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o’r disgyblion yn hyderus ddwyieithog. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw gwaith blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o’r hyn y maent wedi’i ddysgu ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu’u medrau meddwl yn dda; maent yn ennill gwybodaeth yn briodol ac yn ei chymhwyso’n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg a’r ffrwd Saesneg yn datblygu medrau siarad a gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar gwestiynau ac yn eu hateb yn synhwyrol. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn frwdfrydig wrth drafod beth hoffent ei gael ar gyfer y Nadolig ac wrth siarad am eu teuluoedd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, cyn rhoi atebion meddylgar. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn siarad gyda hyder, gan ddefnyddio brawddegau estynedig ac amrywiaeth eang o eirfa, yn enwedig wrth siarad am eu gwaith thematig yn ystod y tymor.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu’u medrau darllen cynnar yn briodol. Maent yn deall bod ystyron i seiniau a dangosant ddiddordeb brwd mewn llyfrau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda gradd dda o gywirdeb a dealltwriaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen o amrywiaeth eang o lyfrau, gyda rhugldER a mynegiant da. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth o lyfrau a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu’n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion, mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Enghraifft dda yw’r llythyr at y dyn ar y lleuad i geisio’i berswadio i ymuno â nhw am ginio Nadolig, a’r prosiect amdanynt eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu’n dda ac yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau. Maent yn datblygu’r defnydd ar atalnodi yn briodol ac yn gwneud dewis diddorol o eirfa. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio’u medrau ysgrifennu yn dda mewn llawer o feysydd y cwricwlwm i gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu. Maent yn addasu’u harddull yn dda i fodloni gwahanol ddibenion, fel disgrifio dull gwyddonol, cyfarwyddiadau neu

nodiadau ar ymweliad â lle o ddiddordeb.  Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyno gwaith yn dda ar y cyfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg.  Defnyddiant strategaethau syml ar gyfer adio, tynnu, lluosi a rhannu yn dda i ddatrys problemau.  Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion gwahanol siapiau ac mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith.  Maent yn gallu casglu a chyflwyno gwybodaeth, a chreu siartiau a graffiau yn gywir i gofnodi gwybodaeth am eu hoff liwiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau mathemategol yn llwyddiannus.  Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi yn hyderus wrth ddatrys problemau.  Mae gan lawer o ddisgyblion iau ddealltwriaeth dda o werth rhif a lle ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfrifiadau pen yn gyflym ac yn hyderus.  Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i luosi rhifau 2 a 3 digid, dehongli data a mesur yn gywir, er enghraifft wrth ddilyn cynllun i ddylunio border ar gyfer blodau a llwyni.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau a ddysgwyd mewn gwersi mathemateg yn effeithiol iawn ar draws feysydd eraill y cwricwlwm i ddatrys amrywiaeth o broblemau bywyd go iawn.  Cofnodant eu canfyddiadau yn rhesymegol a systematig a gallant esbonio'u rhesymeg yn hyderus, er enghraifft wrth roi carfan o chwaraewyr pêl-droed at ei gilydd gydag uchafswm penodol ar gyfer yr holl ffioedd trosglwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau TGCh.  Defnyddiant amrywiaeth o raglenni i dynnu lluniau pictogramau a graffiau bar i ddangos, er enghraifft hoff liwiau disgyblion a'u taldra gwahanol.  Maent yn esbonio'u canfyddiadau yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus i gofnodi a chreu storïau syml yn eu gwaith iaith, gan wneud newidiadau lle bo'r angen i wella mynegiant neu wirio camgymeriadau.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r llygoden a'r bysellfwrdd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh yn effeithiol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd addysgiadol gan ddefnyddio amrywiaeth o raglenni, er enghraifft wrth gyfrifo ôl troed carbon eu dosbarth.  Maent yn creu cyflwyniadau power point diddorol i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol.  Maent yn dangos hyder wrth chwilio cronfeydd data neu gasglu gwybodaeth ar daenlen i gyfrifo a chofnodi llif y traffig tu allan i'r ysgol.  Mewn iaith, maent yn paratoi sgriptiau, yn ymarfer, yn golygu ac yn recordio'u gwaith i safon uchel.  Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg yn yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn y ddau gyfnod allweddol yn dechrau gwneud cynnydd priodol mewn Cymraeg fel ail iaith.  Ymatebant yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac maent yn arddangos dealltwriaeth resymol o'r Gymraeg y mae'r staff yn ei defnyddio.  Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth resymol o destunau Cymraeg syml ac yn ateb cwestiynau sylfaenol am y rhain gyda chywirdeb datblygol.  Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae medrau darllen ac ysgrifennu

disgyblion. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith mewn pynciau eraill ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg yn y deilliant disgwyliedig ac uwch wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg yn y deilliant disgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn gyson. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y deilliant uwch mewn Cymraeg wedi bod islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg ar y cyfan. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y deilliant disgwyliedig mewn datblygiad mathemategol wedi bod uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg yn gyson, ond mae wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch ac is yn y deilliant uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi bod uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg yn gyffredinol ond mae perfformiad mewn Cymraeg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y lefel uwch yn y ddwy iaith fel arfer uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg yn gyson. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o blith ysgolion tebyg ar y lefel ddisgwyliedig yn gyson, ond islaw ar y lefel uwch.

Dros y blynyddoedd diwethaf yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi bod yn gymharol isel. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon wrth gymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y deilliant disgwyliedig, er bod merched yn tueddu i berfformio'n well yn y deilliant uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth amlwg ar y lefel ddisgwyliedig, ond mae bechgyn yn tueddu i wneud yn well mewn mathemateg ar y lefel uwch. Mae perfformiad yn y pynciau eraill yn tueddu i amrywio.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi i gael help a chyngor. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad yn dda iawn ac mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Dangosant ofal a pharch tuag at eu cymheiriaid ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn hapus iawn.

Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron pob un o'r disgyblion yn dda. Mae'r ffordd y mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud dewisiadau am eu dysgu yn nodwedd gadarn ac mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn y maent yn ei ddysgu. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, maent yn dechrau datblygu dealltwriaeth dda o ba mor dda maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r grwpiau disgyblion gweithgar niferus yn cynrychioli llais disgyblion yn effeithiol. Maent yn cwblhau eu dyletswyddau'n hyderus ac yn frwdfrydig. Mae'r cyngor ysgol

wedi cyflwyno blwch awgrymiadau ym mhob ystafell ddosbarth, a arweiniodd at brynu llyfrau newydd. Mae'r pwyllgor eco yn codi ymwybyddiaeth yn weithgar o bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu gwastraff. Mae penodi bwrdd rheoli o ddisgyblion yn cynnig dolen ddefnyddiol rhwng pob grŵp disgyblion ac uwch dîm rheoli'r ysgol a'r corff llywodraethol, ac maent yn rhoi cyflwyniadau rheolaidd iddynt. Mae'r grwpiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les yr holl ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol yn effeithiol ac maent yn falch o'u hymdrechion i godi arian er budd elusennau fel Plant mewn Angen ac apêl y Blychau Esgidiau. O ganlyniad, maent yn deall bod pobl eraill yn llai ffodus na nhw.

Mae'r diwrnod cymunedol gyda rhieni ac aelodau'r gymuned leol yn arwain at godi arian yn llwyddiannus, sy'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i wella ardaloedd allanol yr ysgol. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddanu trigolion y dref trwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn y ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol i ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol. Maent yn addasu'u cynlluniau yn fedrus er mwyn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae'r cynlluniau'n ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau parhad a dilyniant mewn Cymraeg fel ail iaith wedi'i thanddatblygu.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nodwedd arbennig o gryf yw gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer pob tasg, yn seiliedig ar dair lefel o her. Mae rhaglenni ymyrraeth i helpu disgyblion sydd ar eu hôl hi o ran eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae athrawon wedi datblygu'r amgylchedd awyr agored yn arbennig o dda i roi amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau creadigol a medrau datrys problemau disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gadarnhaol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn trefnu llawer o weithgareddau trwy'r Urdd a thrwy gymryd rhan mewn cystadlaethau mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn ehangu profiadau disgyblion yn effeithiol iawn. Mae ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol, fel awduron, yn gwella ymwybyddiaeth a diddordeb disgyblion yn nhraddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal a Chymru.

Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu sut i fyw'n gynaliadwy trwy weithgareddau ailgylchu ac arbed ynni dyddiol. Mae ailgylchu ac arbed ynni yn weithgareddau dyddiol yn yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn darparu profiadau addas i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft am fywyd yn Cenia a Brasil.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn am eu pwnc ac maent yn cysylltu'u gwersi'n dda â dysgu blaenorol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn fedrus i sicrhau cyfraniad a diddordeb disgyblion. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio'u medrau meddwl drwy gydol y wers. Mewn nifer bach iawn o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae diffyg cyflymder ac ni chaiff disgyblion mwy abl eu herio'n ddigonol.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd addysgu ac yn darparu cymorth da yn unol ag anghenion disgyblion i'w helpu i gwblhau eu tasgau yn llwyddiannus. Mae perthynas waith gadarnhaol iawn rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ond mae diffyg sylwadau am sut gall disgyblion wella'u gwaith. Mae gweithdrefnau da ar waith i roi cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael yr effaith lawn eto ar fedrau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi diwygio'i gweithdrefnau i olrhain cynnydd disgyblion, sy'n cynnwys defnyddio profion safonedig, asesiadau athrawon a chraffu ar waith disgyblion. Erbyn hyn, mae gan athrawon well dealltwriaeth o anghenion disgyblion a defnyddiant y wybodaeth yn briodol i osod targedau penodol a thasgau addas i ddisgyblion fel y gallant symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau ysgrifenedig blynyddol o ansawdd da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach ac mae staff yn annog disgyblion i gadw'n heini drwy fynychu clybiau ar ôl ysgol yn rheolaidd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, trwy ddarparu gwasanaethau addoli ar y cyd yn rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldeb a datblygu dealltwriaeth glir o fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn cymuned. Mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfredol, fel sut i fod yn ffrind da i bobl eraill. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffordd y maent yn trin ei gilydd ac yn trin oedolion gyda pharch.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o fentrau ar waith i annog presenoldeb da, ond ar y cyfan, nid yw'r rhain wedi cael effaith eto ar wella presenoldeb.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cymorth priodol ac effeithiol. Mae'r rhaglen ymyrraeth effeithiol yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae cynlluniau addysg ac ymddygiad unigol o ansawdd da ac yn cynnwys targedau clir y mae staff yn eu trafod yn rheolaidd gyda rhieni a disgyblion.

Mae cydweithredu agos rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol, fel y seicolegydd addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chymorth ymddygiad. Mae'r ysgol yn defnyddio'u cyngor a'u cymorth ar gyfer unigolion ag anghenion ychwanegol i roi arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, sy'n trin disgyblion yn gyfartal. Mae pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth, a chreu ethos lle y mae parch tuag at ei gilydd yn werth craidd. Mae'r holl ddisgyblion yn gallu manteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm ac ar weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n briodol â gofynion mynediad i bobl anabl ac mae polisïau cydraddoldeb addas ar waith.

Mae adeiladau'r ysgol yn bodloni anghenion ei holl ddisgyblion yn dda. Mae digon o le mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ardal, sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dewis helaeth o lyfrau o ansawdd uchel ac adnoddau TGCh.

Mae tir yr ysgol yn helaeth, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Mae nifer o nodweddion deniadol, fel yr ardaloedd dysgu awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ystafell gerddoriaeth, neuadd fawr, nifer o ystafelloedd tawel ac ystafell amlsynhwyraidd. Mae athrawon yn gwneud defnydd llawn o bob un o'r rhain i ysgogi ac i gefnogi datblygiad lles disgyblion a'u medrau creadigol a medrau datrys problemau.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a chyflawniadau disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol, sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a thrylwyr iawn, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hybu gwelliant parhaus. Mae'r dirprwy

bennaeth yn ei chefnogi'n effeithiol tu hwnt. Gyda'i gilydd, maent yn llwyddo i hybu disgwyliadau uchel iawn ymhlith staff a disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir iawn ar gyflawniad a lles disgyblion ac mae'n sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ffocws ar godi safonau, trwy arfarnu trylwyr, yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n rheolaidd.

Mae trefniadau trylwyr i reoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu, ac yn cynnig cyfleoedd priodol i hybu datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol a phenodol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae TGCh a disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac mae trefniadau ar gyfer asesu dysgu yn datblygu'n dda.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi lefel effeithiol o gymorth i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau yn glir. Trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a staff eraill, ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth a data ar berfformiad, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut mae perfformiad disgyblion yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Maent yn dechrau herio'r ysgol yn dda fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac mae'n datblygu dealltwriaeth y staff o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn dda. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy'n seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion a gwrando ar farn disgyblion, llywodraethwyr a rhieni.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae'n cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac mae'n enwi aelodau staff sy'n gyfrifol am eu cyflawni. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddo heriol o fewn terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau tasgau. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn effeithiol. Mae camau diweddar i wella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion a rhoi llais i ddisgyblion ym mywyd a gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, mae cynnydd wrth wella Cymraeg fel ail iaith wedi bod yn gyfyngedig.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni, gwasanaethau cymorth arbenigol a'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles disgyblion. Mae rhieni'n cael llawer iawn o wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol a chylchgrawn 'Chit Chat', sy'n cael ei gynhyrchu gan

y disgyblion. Mae gweithdai gyda rhieni wedi cefnogi lles disgyblion yn arbennig o llwyddiannus. Mae rhieni wedi codi llawer o arian i wella'r adnoddau ar gyfer TGCh ac i brynu oergelloedd i gadw ciniawau disgyblion yn ffres.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r gymuned ehangach. Mae aelodau o fusnesau lleol yn cefnogi'r ysgol mewn sawl ffordd, fel cyfrannu at welliannau yn y ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a noddi cylchgrawn yr ysgol trwy hysbysebu. Mae cysylltiadau â chlwb chwaraeon a chwmni dŵr lleol yn arbennig o gryf.

Mae trefniadau pontio effeithiol gyda chylchoedd chwarae lleol ac ysgolion uwchradd partner. O ganlyniad, mae disgyblion wedi'u paratoi'n dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn i'w ddisgwyl pan fyddant yn symud o un ddarpariaeth i'r nesaf.

Mae ysgolion clwstwr yn cydweithredu'n rheolaidd ac yn effeithiol ar amrywiaeth o fentrau presennol, gan gynnwys rhannu arfer dda a chymedroli a safoni gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae asesiadau athrawon yn fwy dibynadwy a chywir.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cymorth profiadol i gwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae cyfraniad a chefnogaeth y cynorthwywyr cymorth dosbarth yn un o gryfderau'r ysgol. Maent yn cynnig cymorth gwerthfawr i athrawon ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar wella cyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig medrau iaith a rhifedd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae amrywiaeth dda o adnoddau yn yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn rheoli'r rhain yn dda er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio'n llawn ar bob agwedd ar y cwricwlwm.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon yn briodol.

Mae staff yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol ac yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda. Mae athrawon yn yr ysgol yn cael cyfleoedd buddiol i arfarnu eu haddysgu eu hunain, rhannu eu harfarniadau ac adolygu arfer. Mae ymweliadau ag ysgolion eraill wedi arwain at welliannau helaeth i'r ddarpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan arweinwyr drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r defnydd ar y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r ychydig ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Enghraifft dda yw'r ffordd y mae eu medrau ysgrifennu estynedig a'u presenoldeb wedi gwella.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6682242 - Narberth CP School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 329 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 32 | 42 | 48 | 43 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.8 | 95.2 | 95.8 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 28 | 25 | 21 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 96.4 | 100.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.9 | 25.0 | 44.0 | 38.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 14 | 23 | 22 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 95.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.4 | 50.0 | 26.1 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 42 | 48 | 43 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.9 | 95.2 | 95.8 | 97.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 46.9 | 40.5 | 33.3 | 39.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 42 | 48 | 43 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.9 | 97.6 | 100.0 | 97.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 62.5 | 52.4 | 66.7 | 58.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682242 - Narberth CP School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 329 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 37 | 48 | 44 | 49 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.5 | 85.4 | 90.9 | 93.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 48 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.9 | 95.8 | 97.7 | 95.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.9 | 52.1 | 38.6 | 34.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 29 | 23 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 89.7 | 91.3 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.9 | 37.9 | 30.4 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 48 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.2 | 87.5 | 90.9 | 93.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.1 | 35.4 | 34.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 48 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.3 | 100.0 | 97.7 | 98.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.8 | 31.3 | 31.8 | 30.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 63 | 60 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 63 | 53 | 10 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 63 | 60 | 3 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 63 | 59 | 4 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 63 | 52 | 11 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 83% | 17% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 62 | 52 | 10 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 63 | 59 | 4 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 63 | 60 | 3 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 63 | 45 | 18 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 63 | 52 | 11 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 83% | 17% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 63 | 34 | 29 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 54% | 46% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 63 | 39 | 24 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 62% | 38% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 68 | 22 | 40 | 5 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 32% | 59% | 7% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 69 | 36 | 31 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 52% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 67 | 33 | 32 | 2 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 49% | 48% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 63 | 23 | 33 | 6 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 37% | 52% | 10% | 2% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 63 | 12 | 39 | 10 | 2 | 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 19% | 62% | 16% | 3% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 63 | 22 | 38 | 3 | 0 | 6 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 35% | 60% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 66 | 29 | 35 | 2 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 44% | 53% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 60 | 23 | 28 | 4 | 5 | 9 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 47% | 7% | 8% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 59 | 22 | 29 | 7 | 1 | 10 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 37% | 49% | 12% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 67 | 25 | 37 | 4 | 1 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 37% | 55% | 6% | 1% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 68 | 34 | 30 | 3 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 44% | 4% | 1% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 56 | 18 | 35 | 2 | 1 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 32% | 62% | 4% | 2% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 66 | 17 | 33 | 13 | 3 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 26% | 50% | 20% | 5% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 69 | 30 | 32 | 5 | 2 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 43% | 46% | 7% | 3% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 68 | 26 | 36 | 5 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 53% | 7% | 1% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 60 | 24 | 32 | 4 | 0 | 9 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 35 | 14 | 16 | 1 | 4 | 32 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 40% | 46% | 3% | 11% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 67 | 23 | 38 | 5 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 34% | 57% | 7% | 1% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 60 | 23 | 33 | 2 | 2 | 9 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 38% | 55% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gwilym Alun Huw Rees | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Ward | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.